**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)**
**Gwasanaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**
**Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae Platfform e-ddysgu (Moodle) Learning@Wales yn defnyddio eich data fel y nodir isod.

## Sail gyfreithiol defnyddio data personol ar Learning@Wales (Moodle):

Os oes cyfrif Learning@Wales gennych yr ydych yn ei ddefnyddio i ymweld â'r wefan, y sail gyfreithiol sydd gennym dros ddefnyddio'ch data personol yw'r angen i ni fodloni'n rhwymedigaethau contractiol i chi fel defnyddiwr ein gwasanaeth.

Rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol â'ch cydsyniad, fel y'i rhoddwyd gennych chi i'r defnyddiwr (sef y Sefydliad rydych yn gweithio iddo fel arfer), a greodd eich cyfrif fel bod modd ichi wneud cwrs/cyrsiau e-ddysgu. Mae gennych yr hawl hefyd i dynnu'ch cydsyniad yn ôl. Os ydych am dynnu'ch cydsyniad yn ôl, dylech anfon e-bost at Ddesg Gymorth e-Ddysgu Cymru Gyfan - elearning@wales.nhs.uk.

## Data a gedwir gan system Learning@Wales.

Mae'r data a gaiff eu cadw yn cynnwys eich enw, eich cyfeiriad e-bost (pan gaiff ei roi), eich enw defnyddiwr, eich Sefydliad a gwybodaeth am eich cwrs.

Mae cofnodion y wefan yn cynnwys gwybodaeth fanwl am weithgaredd y defnyddiwr ymhob cwrs, gan gynnwys yr amser a'r dyddiad y cafodd gwybodaeth benodol am y cwrs ei gweld a/neu ei diweddaru, cyfeiriad y peiriant a ddefnyddiwyd wrth wneud y cwrs, gwybodaeth adnabod y porwr a gwybodaeth am y wefan a atgyfeiriodd y defnyddiwr. Defnyddir y cofnodion i gynhyrchu ystadegau cryno, y gellir eu rhyddhau i'r cyhoedd. Nid yw ystadegau cryno yn cynnwys data personol.

Mae gwybodaeth am gyfraniadau at gyrsiau, gan gynnwys cyfraniadau at ystafelloedd sgwrsio a fforymau trafod, gwybodaeth am berchnogaeth adnoddau a thystiolaeth am gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill ar o fewn y system.

Mae gwybodaeth a data am ddefnyddwyr yn ymwneud â graddau, sylwadau adborth, sgoriau, data am orffen cyrsiau, hawliau mynediad ac aelodaeth o grwpiau hefyd yn cael eu cofnodi.

Mae'n bosibl y caiff data personol ychwanegol eu cadw hefyd mewn rhai cyrsiau, naill ai mewn dogfennau/adnoddau sydd wedi eu huwchlwytho i'r cwrs, neu mewn gweithgareddau yn y cwrs. Ar wahân i gyfraniadau at ystafelloedd sgwrsio a fforymau trafod y mae unigolion yn eu gwneud yn bersonol, mae cynheiliaid cwrs yn gyfrifol am y wybodaeth a gedwir amdanoch a fydd o bosibl yn cael eu huwchlwytho i'r fath gyrsiau.

## Sut mae system Learning@Wales yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Mae Learning@Wales yn cofnodi ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion canlynol:

- Rhoi cyfrif ichi, ac i'ch adnabod pan fyddwch yn defnyddio'r system e-ddysgu
- Rhoi mynediad i chi i gyrsiau/gwefannau
- Eich galluogi i uwchlwytho, diwygio a dileu gwybodaeth benodol
- Rhoi mynediad i chi i wybodaeth, adnoddau a gweithgareddau sydd wedi eu huwchlwytho
- Rheoli pwy sy'n cael gweld gwahanol rannau o'r system
- Cynorthwyo defnyddwyr
- Gweinyddu'r system a thracio problemau
- Adrodd ar argaeledd cyrsiau, adnoddau a gweithgareddau, ac adrodd ar ddata am gyrsiau a chwblhau gweithgareddau a chyrsiau (fel graddau, sgoriau, gwaith a gyflwynwyd a chynnwys a uwchlwythwyd)
- Cynhyrchu ystadegau defnydd at ddibenion rheoli a chynllunio

Mae'n bosibl y bydd cyrsiau unigol yn casglu gwybodaeth bersonol ychwanegol at y dibenion canlynol:

- Darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr
- Hwyluso a chefnogi prosesau busnes
- Cefnogi defnyddwyr

Gallai rhestr nad yw'n gynhwysfawr o enghreifftiau o hyn gynnwys:

- Gwerthuso cyrsiau
- Casglu data at ddibenion prosesau busnes
- Manylion cyswllt

## O ble y daw gwybodaeth Learning@Wales

Mae'n cofnodi gwybodaeth mae'r defnyddiwr yn ei rhoi, a hynny yn achos pob defnyddiwr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth rydych chi'n ei chofnodi ar eich proffil (fel sefydliad/adran, a chwrs).  Yn ogystal â'r wybodaeth rydych chi'n ei huwchlwytho a'i chyflwyno

Mae Learning@Wales yn defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan:

- Y defnyddiwr sy'n creu'r cyfrif.
- Sefydliad Perthnasol.

Mae'n bosibl y bydd defnyddwyr y system yn uwchlwytho gwybodaeth ychwanegol i gyrsiau unigol.

## Pwy sydd â mynediad at y data

Mae gan Dysgu Digidol Cymru (DLW) yn PCGC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) fynediad i'r holl wybodaeth sydd wedi'i storio at y dibenion a nodir uchod.

Gall pob gweinyddwr a chynhaliwr cwrs gael mynediad at wybodaeth bersonol y defnyddwyr eraill ar y cwrs hwnnw.

Dim ond staff awdurdodedig yn DLW a DHCW sy'n cael gweld cofnodion, ac eithrio data tracio sy'n benodol i gwrs sydd hefyd ar gael i berchnogion cwrs.

### Lle rhennir yr wybodaeth

Gall sefydliadau rannu eu gwybodaeth bersonol eu hunain gyda'u systemau eraill, ee Systemau Adnoddau Dynol

### Cadw data

Gellir cadw gwybodaeth a data sydd wedi eu huwchlwytho am gyfnod amhenodol, gan gynnwys cyfrifon, cyrsiau a chyfraniadau at gyrsiau, gan gynnwys cyfraniadau mewn ystafelloedd sgwrsio a fforymau trafod, perchnogaeth adnoddau a thystiolaeth am gyfraniadau at weithgareddau eraill ar y wefan.

Cedwir copi wrth gefn o'r data gan DHCW. Cedwir copïau wrth gefn o'r data fel bod modd eu hadfer, e.e. pe bai rhan o system yn methu.

### Sut mae'r Ddesg Gymorth yn defnyddio'ch gwybodaeth

Os byddwch yn cysylltu â Desg Gymorth e-ddysgu Cymru Gyfan am gymorth gyda phroblem, cwestiwn am nam neu gymorth, bydd angen i'r staff cymorth edrych ar eich data a gedwir ar y system, gan gynnwys ffeiliau yn eich ardaloedd personol a'r cyrsiau yr ydych yn perthyn iddynt. Mae'n bosibl y bydd rhaid i ni wneud unrhyw un o'r canlynol:

- Wrth roi cymorth ichi, ateb eich cwestiwn i'r Ddesg Gymorth, ymchwilio i'ch problem/mater neu ei ail-greu neu wrth lunio ymateb, mae'n bosibl y bydd Desg Gymorth e-Ddysgu Cymru Gyfan yn defnyddio'ch cyfrif chi i lywio a rhyngweithio â'ch cyfrif. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio nodwedd o'r enw 'mewngofnodi yn enw', sy'n caniatáu i'r Ddesg Gymorth reoli'ch cyfrif. Ni fydd y Ddesg Gymorth yn ychwanegu, golygu nac yn dileu unrhyw ddata wrth wneud hyn heb eich caniatâd ymlaen llaw. Ni fyddwn byth yn gofyn ichi anfon eich cyfrinair atom wrth gynnig cymorth ichi.
- Mae hefyd yn bosibl y bydd y Ddesg Gymorth, wrth ateb eich ymholiad, yn gwneud copi dyblyg o'ch cwrs neu'ch data a'u trosglwyddo i ran arall o'r system neu i un o'n systemau prawf. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal ymchwiliadau, profi datrysiadau a rhoi cymorth ichi.
- Wrth roi cymorth ichi, ni fydd y Ddesg Gymorth byth yn rhannu'ch gwybodaeth ag eraill, ac mae hyn yn cynnwys enwau defnyddwyr a chyfrineiriau.

**Rhagor o wybodaeth**
Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r daflen hon, neu os oes unrhyw gwestiynau gennych am y wybodaeth hon, cysylltwch â Rheolwr Rhaglen Dysgu Digidol GIG Cymru, Julie Rogers:
E-bost: Julie.rogers5@wales.nhs.uk
Ffôn: 01443 848584